# Bywyd amser rhyfel

Er bod y Rhyfel Ffug wedi gorffen, mi gymrodd hi tan fis Medi 1940 – ac ymgyrch fomio Luftwaffe Hitler ar Lundain – i bobl Prydain deimlo bod ‘na ryfel go iawn yn digwydd.

Ystyr ‘Blitz’ yw ‘mellt’. Bwriad yr Almaen oedd dinistrio dinasoedd ac ysbryd pobl Prydain.

I gadw pobl fwya' bregus Prydain yn ddiogel, symudodd y Llywodraeth blant, athrawon, mamau newydd a menywod beichiog i fyw yng nghefn gwlad.

Yn y cyfamser, roedd llongau bwyd yn cael eu suddo gan dorpidos yr Almaen. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu siâr, dechreuodd y Llywodraeth ddogni bwyd.

O ganlyniad, roedd llawer o bobl yn iachach nag o’r blaen – roedd llai o fenywod yn marw yn ystod beichiogrwydd, ac roedd rhai plant yn fwy heini. Ond doedd bywyd ddim yn hawdd adeg y Blitz.

Roedd y rhan fwyaf o ddynion ifanc Prydain wedi eu consgriptio, felly erbyn diwedd 1940, dechreuodd menywod weithio ochr yn ochr â dynion … i ddatrys y cod enigma, gweithio mewn ffatrïoedd a gyrru bysiau a thramiau.

Ond o’n nhw’n cael eu talu 25 y cant yn llai na dynion am wneud yr un gwaith. Grrrr!

Trwy gydol yr holl anrhefn yma, roedd y Llywodraeth yn gwybod bod gan Brydain arf cyfrinachol.

Morâl. Ysbryd y Blitz.

Roedd Winston Churchill yn gwybod bod hi’n hanfodol i gynnal ysbryd y bobl yn ystod y rhyfel, felly ysgrifennodd areithiau brwd ac angerddol.

Defnyddiodd y Llywodraeth sensoriaeth a phropaganda positif ar ffurf caneuon bywiog, a chymeriadau comedi fel Doctor Carrot a Potato Pete o’r ymgyrch Dig for Victory. Roedden nhw’n annog cymunedau i ddod ynghyd ac yn osgoi sôn am erchyllterau’r rhyfel.

Felly, roedd yr Ail Ryfel Byd yn anodd iawn i Brydain, ond gwnaeth trefnu da, ysbryd cymunedol a’r ewyllys i lwyddo helpu pobl i ddal ati.


© Hawlfraint BBC